# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

# rhwng

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

# ac

# Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

| | |
|---|---|
| **Fersiwn** | **3.0** |
| **Dyddiad y cytunwyd arno** | **Ionawr 2017** |

## Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

**Cynnwys** **Rhif**


1. Hanes adolygiadau a chymeradwyaeth ............................................... 3

2. Cyflwyniad............................................................................................. 3

3. Cwmpas y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ...................................... 3

4. Egwyddorion cydweithio rhwng AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi............................................................................................. 4

5. Swyddogaethau sy'n cael eu cynnwys: ............................................... 4

   - Adolygu ac arolygu ........................................................................ 5
   - Cydlynu a chyfnewid gwybodaeth ................................................ 6
   - Lefelau o gydweithrediad............................................................. 6
   - Gweithdrefnau ar gyfer cydweithredu ac uwchgyfeirio................. 7
   - Meysydd ar gyfer cydweithio a chydlynu ..................................... 7
   - Cyfathrebu allanol.......................................................................... 8

6. Datrys anghydfodau.............................................................................. 8

7. Gweithredu'r memorandwm hwn ......................................................... 8

**Atodiad A:** Cyfrifoldebau a swyddogaethau ............................................. 9

**Atodiad B:** Protocol ar gyfer rhannu gwybodaeth...................................... 13

**Atodiad C:** Manylion cyswllt....................................................................... 15

## 1. Hanes adolygiadau a chymeradwyaeth

| Fersiwn | Dyddiad y cytunwyd arno | Cytunwyd gan |
|---|---|---|
| 1.0 | Hydref 2013 | Kate Chamberlain a Nick Hardwick |
| 2.0 | Awst 2015 | Kate Chamberlain a Nick Hardwick |
| 3.0 | Ionawr 2017 | Kate Chamberlain a Peter Clarke |
| | | |

## 2. Cyflwyniad

2.1 Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi wedi cytuno ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn. Mae'r cytundeb yn dod i rym pan fydd Prif Weithredwr AGIC a Phrif Weithredwr Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi wedi'i lofnodi. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn:

- Cydnabod rôl rheoleiddio ac arolygu AGIC a rôl arolygu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, wrth gydnabod pwysigrwydd annibyniaeth gilyddol wrth iddynt gyflawni eu gwahanol gyfrifoldebau
- Cefnogi craffu'n effeithiol ar ofal a thriniaeth iechyd a gofal cymdeithasol carcharorion tra eu bod yn y carchar
- Ymroddi i bwysigrwydd hyrwyddo lles mewn dalfeydd
- Annog y ddau sefydliad, fel aelodau o Fecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU, i weithio yn unol â gofynion y Protocol Opsiynol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn Erbyn Artaith (OPCAT) – gweler Atodiad A

## 3. Cwmpas y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

3.1 Mae'r memorandwm hwn yn diffinio o dan ba amgylchiadau y bydd AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn cydweithredu, a'r prosesau y byddant yn eu dilyn wrth iddynt gyflawni eu gwahanol swyddogaethau yng Nghymru.

3.2 Mae'n disgrifio sut y bydd buddion a chyfrifoldebau'r ddwy arolygiaeth yn ategu ei gilydd, ac yn osgoi dyblygu a dryswch. Bydd hyn yn galluogi carchardai a Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru i fod yn eglur ynglŷn â'u hatebolrwydd, ac yn galluogi staff AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi i fod yn eglur ynglŷn â phryd a sut y byddant yn cydweithredu.

3.3 Mae gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ddyletswydd statudol i arolygu gofal iechyd a chymdeithasol, a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau mewn dalfeydd. Cyfrifoldeb AGIC yw arolygu ansawdd a diogelwch gofal cleifion sydd wedi'i gomisiynu a'i ddarparu gan sefydliadau gofal iechyd yng Nghymru. O ran carchardai, mae AGIC yn canolbwyntio ar ansawdd a diogelwch safonau a threfniadau llywodraethu ar gyfer darpariaeth gwasanaethau iechyd i garcharorion gan y Byrddau Iechyd Lleol. Ar hyn o bryd, nid yw carchardai preifat yn dod o dan y trefniadau cydweithio a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, oni bai bod darparwr gofal iechyd annibynnol sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC yn darparu'r gofal iechyd yn y carchar.

3.4 Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn disodli cyfrifoldebau a swyddogaethau statudol AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, ac nid yw'n orfodol yn ôl y gyfraith. Fodd bynnag, mae AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn cytuno i lynu wrth gynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

3.5 Gall y naill sefydliad neu'r llall wrthod cais i gydweithio ar ddarn penodol o waith, ar sail effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd, neu oherwydd na fyddai gwneud hynny ddim er lles gorau'r rhai sy'n defnyddio gwasanaeth, neu y byddai'n gwrthdaro'n uniongyrchol â dyletswyddau statudol, polisïau neu swyddogaethau'r naill sefydliad neu'r llall.

## 4. Egwyddorion cydweithio rhwng AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

4.1 Bydd AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn ceisio sicrhau cydweithio effeithiol trwy'r dulliau canlynol:

- Bydd AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn parchu statws annibynnol ei gilydd ac yn cydweithredu pan fydd hynny'n angenrheidiol neu'n briodol;
- Bydd y berthynas weithio rhwng AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn cael ei llywodraethu gan yr angen i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd i garcharorion, a'r angen i osgoi dyblygu diangen a gorgyffwrdd;
- Bydd AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn gweithio gyda'i gilydd wrth gyflawni eu gwahanol swyddogaethau, pan fydd hynny'n gwneud y cyfraniadau gorau at wella gwasanaethau gofal iechyd i garcharorion;
- Bydd AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn annog datblygiad gwybodaeth berthnasol, gyson a chywir ynglŷn â gwasanaethau gofal iechyd i garcharorion; a
- Bydd AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn agored a thryloyw wrth benderfynu pa bryd y byddant yn cydweithredu, ac ym mha le mae hynny'n briodol.

## 5. Swyddogaethau sy'n cael eu cynnwys

5.1 Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi'r egwyddorion a'r prosesau y bydd AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn eu dilyn wrth gydweithio:

- adolygu ac arolygu;
- cydlynu a chyfnewid gwybodaeth;
- lefelau o gydweithrediad;
- gweithdrefnau ar gyfer cydweithredu ac uwchgyfeirio;
- meysydd ar gyfer cydweithio a chydweithredu; a
- chyfathrebu allanol.

**Adolygu ac arolygu**

5.2 Bydd AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn cynnal arolygiadau neu adolygiadau ar y cyd o unrhyw ddarpariaeth/darparwr gwasanaethau gofal iechyd i garcharorion, lle mae gan y ddwy ohonynt gyfrifoldebau. Bydd cyd-arolygiadau o'r fath yn cael eu cynnal gan y ddau sefydliad, wrth iddynt gadw eu gwahanol bwerau, swyddogaethau a gofynion adrodd.

5.3 Yn bennaf, mae rhaglen arolygu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn un ddirybudd. Bydd yn pennu amlder lleiaf ar gyfer arolygu pob math o sefydliad, ond o fewn yr amlder hwn, bydd hi'n gwneud amseru'r arolygiadau'n llai rhagfynegadwy, a'r defnydd o adnoddau'n fwy hyblyg – yn seiliedig ar ystyried gwybodaeth ac asesiadau risg rhagweithiol. Bydd pob arolygiad yn cynnwys asesiad o'r cynnydd wrth weithredu argymhellion blaenorol.

5.4 Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn hysbysu Pennaeth Gwybodaeth a Datblygiad Corfforaethol AGIC am y lleoliadau a fydd yn cael arolygiadau rheolaidd dirybudd yng Nghymru cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol, ond o leiaf chwarter blwyddyn ymlaen llaw. Mae AGIC yn cytuno i gadw'r wybodaeth hon yn gyfrinachol; gellir cymryd camau o fewn AGIC os yw AGIC yn torri'r cyfrinachedd hwn. Bydd Pennaeth Gwybodaeth a Datblygiad Corfforaethol AGIC yn cytuno ag AGIC a fydd aelod addas o staff AGIC ar gael ar y dyddiad hwn i fynd gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar yr arolygiad.

5.5 Bydd aelod staff AGIC yn anfon gwybodaeth berthnasol at arolygydd iechyd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi cyn yr ymweliad, yn unol â'r fframweithiau perthnasol, pan fydd amserlenni'n caniatáu hynny.

5.6 Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn arwain yr arolygiadau ac yn adrodd ar y canlyniadau iechyd ar gyfer carcharorion. Bydd AGIC yn hysbysu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi pan fydd yn mynd gyda hi ar ei harolygiadau rheolaidd o garchardai yng Nghymru. Os felly, bydd AGIC yn darparu staff ar gyfer un diwrnod neu ddau ar gyfer pob arolygiad, er mwyn canolbwyntio ar elfen llywodraethu clinigol yr arolygiad. Bydd staff AGIC yn rhoi adborth ar y trefniadau llywodraethu clinigol i arolygydd iechyd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, yn unol â safonau gofal iechyd Llywodraeth Cymru a geir yn nogfen Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi o'r enw ‘Expectations: Criteria for assessing the treatment of prisoners and conditions in prisons’ (argraffiad cyfredol), pan fydd hynny'n berthnasol.

5.7 Bydd AGIC yn cynnal adolygiadau o Fyrddau Iechyd Lleol yn unol â'i rhaglen gyhoeddedig. Bydd AGIC yn rhannu gwybodaeth berthnasol o'r adolygiadau hyn ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, fel y nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, ac yn unol â'r fframweithiau perthnasol, cyn ac yn ystod yr ymweliad, pan fo hynny'n briodol. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys ym mha ffordd mae disgwyliadau a'r safonau gofal iechyd ar gyfer Cymru yn cael eu bodloni, mewn perthynas â darparu/comisiynu gwasanaethau gofal iechyd i garcharorion gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

5.8 Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn anfon copi o bob adroddiad arolygu drafft at Bennaeth Gwybodaeth a Datblygiad Corfforaethol AGIC, tuag wyth wythnos ar ôl cwblhau cyd-arolygiad o garchar yng Nghymru, er mwyn i aelod staff AGIC gael cywiro unrhyw anghysondebau ffeithiol yn yr adroddiad os yn berthnasol. Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi hefyd yn anfon adroddiadau drafft at Reolwr Ardal y Gwasanaeth Carchardai a/neu Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr yng Nghymru, a Llywodraethwr y carchar.

5.9 Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn anfon drafft terfynol (dan embargo) at Gyfarwyddwr Arolygu, Rheoleiddio ac Ymchwilio AGIC; Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaeth Carchardai ac Uned Briffio'r Gwasanaeth Carchardai; neu Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr yng Nghymru a/neu gyfarwyddwr perthnasol arall y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr – ar yr un pryd ac o leiaf pedwar neu pum diwrnod gwaith cyn iddo gael ei gyhoeddi.

5.10 Mae'n ofynnol i Reolwr Ardal y Gwasanaeth Carchardai a Llywodraethwr/Cyfarwyddwr y carchar lunio cynllun gweithredu ymhen tri mis i gyhoeddiad yr adroddiad, a'i ddychwelyd at Brif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi, gan anfon copi at Gyfarwyddwr Arolygu, Rheoleiddio ac Ymchwilio AGIC.

5.11 Lle mae'r adroddiad terfynol yn nodi materion sy'n ymwneud â'r bwrdd iechyd lleol, bydd Cyfarwyddwr Arolygu, Rheoleiddio ac Ymchwilio AGIC yn gofyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am gomisiynu gofal iechyd yn y carchar lunio cynllun gweithredu ymhen tri mis i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, a'i anfon at Bennaeth Arolygu Gofal Iechyd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Bydd copi o'r llythyr a anfonir at y Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn am gynllun gweithredu, a chopi o'r cynllun, yn cael eu hanfon at Reolwr Ardal y Gwasanaeth Carchardai.

**Cydlynu a chyfnewid gwybodaeth**

5.12 Yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau statudol, bydd AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn rhannu gwybodaeth am dueddiadau, cwynion, pryderon, data, dulliau gweithredu, a mentrau sy'n berthnasol i'r cydamcan o sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd i garcharorion yn cael eu cynnal i'r safonau perthnasol a bod y gwaith o gasglu data'n ddigon cadarn i nodi pob cymhlethdod a chanlyniad perthnasol. Mae manylion ynglŷn â sut y bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu, a'r egwyddorion sy'n cynnal y gwaith o drin, prosesu a storio gwybodaeth o'r fath yn cael eu nodi yn Atodiad B.

5.13 Bydd y ddau sefydliad yn hysbysu ei gilydd am yr holl weithgareddau perthnasol sy'n ymwneud â mannau eraill y Deyrnas Unedig, neu'r DU yn ei chyfanrwydd.

**Lefelau o gydweithrediad**

5.14 Mae'r ddau sefydliad yn cytuno i hysbysu ei gilydd am faterion sydd o ddiddordeb strategol i'r ddau ohonynt, trwy eu gwahanol uwch-gynrychiolwyr – y

Pennaeth Arolygu Gofal Iechyd ar gyfer Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, a'r Pennaeth Gwybodaeth a Datblygiad Corfforaethol ar gyfer AGIC.

5.15 Un o nodweddion y berthynas weithio rhwng AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi fydd cysylltiad rheolaidd a'r cyfnewid agored o wybodaeth, gan gynnwys cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol ar bob lefel. Bydd AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn cyfathrebu o leiaf unwaith bob chwe mis, naill ai ar y ffôn, trwy e-bost, neu mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

**Gweithdrefnau ar gyfer cydweithredu ac uwchgyfeirio**

5.16 Mae'n bosibl y bydd y naill sefydliad yn derbyn gwybodaeth sy'n dod o dan gylch gwaith y llall. O ystyried y prif amcan o amddiffyn buddion carcharorion, mae'n bwysig bod y ddau sefydliad, trwy'r cytundeb hwn, yn annog diwylliant o ymddiriedaeth a dealltwriaeth gilyddol, a'u bod yn fodlon rhannu gwybodaeth berthnasol.

5.17 Dylai buddion carcharorion barhau i fod yn flaenoriaeth, a phan fydd materion yn perthyn i addasrwydd i ymarfer gweithiwyr iechyd proffesiynol, dylid cyfeirio'r wybodaeth hon at y corff rheoleiddio perthnasol i'w hymchwilio ymhellach. Nid oes unrhyw beth yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn sy'n ceisio atal Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi neu AGIC rhag cymryd camau sy'n cael eu cyfiawnhau gan yr angen i ddiogelu carcharorion a/neu staff.

**Meysydd ar gyfer cydweithio a chydlynu**

5.18 Mae holl ystod swyddogaethau AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn cael ei chrynhoi yn Atodiad A. Yn eu plith, mae'r meysydd ar gyfer cydweithio a chydlynu fel a ganlyn:

- Arolygu darpariaeth gwasanaethau gofal iechyd i garcharorion yng Nghymru yn rheolaidd;
- Asesu darpariaeth/comisiynu gwasanaethau gofal iechyd i garcharorion yng Nghymru;
- Darparu cyngor a gwybodaeth ar gyfer gweinidogion, darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau, a'r cyhoedd.

5.19 Er mwyn cefnogi'r rhain, bydd AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn rhannu gwybodaeth, dealltwriaeth ac arbenigedd pan fo hynny'n briodol ac yn ôl yr angen, er mwyn cyflawni amcanion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn. Bydd AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi hefyd yn cydlynu gweithgarwch, yn enwedig arolygiadau neu gamau eraill er mwyn mynd i'r afael â phryderon.

5.20 Nodir y ffyrdd y bydd AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn gwneud hyn yn y protocol sydd ynghlwm wrth y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn Atodiad B. Bydd y protocol yn cael ei adolygu a'i ddiwygio bob yn ail flwyddyn neu ychwanegir ato yn ôl yr angen.

**Cyfathrebu allanol**

5.21 Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn anfon copïau o ddatganiadau i'r wasg sy'n berthnasol (dan embargo) at AGIC, cyn i adroddiadau arolygu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi gael eu cyhoeddi. Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac AGIC yn hysbysu ei gilydd am gyfathrebiadau eraill sy'n ymwneud â pherfformiad gofal iechyd i garcharorion. Gallai hyn gynnwys:

- amseru datganiadau i'r wasg ac unrhyw gyhoeddiadau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r broses arolygu;
- cynnwys ei gilydd, pan fod hynny'n briodol, mewn cynadleddau a thrafodaethau cyhoeddus eraill; a
- chynorthwyo ei gilydd wrth ddosbarthu gwybodaeth ynglŷn ag arfer da ym maes gofal iechyd i garcharorion.

## 6. Datrys Anghydfodau

6.1 Fel arfer, bydd unrhyw anghydfod rhwng AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn cael ei ddatrys ar lefel weithio, neu ar lefel Prif Weithredwr Cynorthwyol. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid uwchgyfeirio materion at Brif Weithredwr AGIC a Phrif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi. Nhw fydd yn gyfrifol am sicrhau canlyniad boddhaol.

## 7. Gweithredu'r memorandwm hwn

7.1 Bydd y cytundeb hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd – o leiaf bob dwy flynedd, a phryd bynnag y bydd deddfwriaeth newydd – er mwyn adlewyrchu adborth gan staff gweithredol, gwersi a ddysgwyd trwy'r broses o'i weithredu, ac effaith unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth.

7.2 Mae'r ddau sefydliad wedi penodi person cyfrifol i reoli'r cytundeb. Rhoddir manylion cyswllt yn Atodiad C.

| | |
|---|---|
| Llofnod | Llofnod |
| Dyddiad: 13 Mawrth 2017 | Dyddiad: 7 Mawrth 2017 |
| Dr Kate Chamberlain<br>Prif Weithredwr AGIC<br>Ffôn: 0300 062 8379<br>E-bost: kate.chamberlain@wales.gsi.gov.uk | Peter Clarke CVO OBE QPM<br>Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi<br>Ffôn: 020 3681 2772<br>E-bost: mailto:peter.clarke@hmiprisons.gsi.gov.uk |

## Atodiad A: Cyfrifoldebau a swyddogaethau

1. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn cydnabod cyfrifoldebau a swyddogaethau ei gilydd, a byddant yn ystyried y rhain wrth weithio gyda'i gilydd.

### Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

2. AGIC yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

3. Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru, ac er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi eu sefydlu er mwyn diogelu ei hannibyniaeth weithredol. Mae prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC yn deillio o'r ddeddfwriaeth ganlynol:
   - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003
   - Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig
   - Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Iechyd Meddwl 2007
   - Goruchwyliaeth Statudol Bydwragedd fel y nodir yn Erthyglau 42 a 43 Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001
   - Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Rheoliadau Diwygio 2006.

4. Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:
   - Gwneud cyfraniad sylweddol at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
   - Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
   - Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
   - Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

5. Swyddogaeth graidd AGIC yw adolygu ac archwilio sefydliadau'r GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn darparu sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd ac eraill bod gwasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd da. Adolygir gwasanaethau iechyd mewn perthynas ag amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau a gyhoeddwyd. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau a'r camau sydd eu hangen i gyflawni hyn. Os bydd angen, bydd AGIC hefyd yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig lle y mae'n ymddangos bod diffygion systemig wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, er mwyn sicrhau y gwneir gwelliannau ac y dysgir gwersi'n gyflym. Yn ogystal, AGIC yw'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer goruchwylio statudol bydwragedd yng Nghymru.

6. Mae AGIC hefyd yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae rheoleiddio sefydliadau o'r fath yn cael ei lywodraethu gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru)

2011. Fodd bynnag, o dan y rheoliadau hynny, mae sefydliad yn cael ei eithrio o gael ei ystyried yn ysbyty annibynnol o dan Adran 2 Deddf Safonau Gofal 2000 os yw'r sefydliad yn garchar, yn ganolfan gadw, yn sefydliad i droseddwyr ifanc, neu'n ganolfan hyfforddi ddiogel, yn yr ystyr a ddiffinnir yn Neddf Carchardai 1952, neu'n ffurfio rhan o un o'r sefydliadau hyn. Yn yr un modd, nid oes rhaid i glinigau annibynnol neu asiantaethau meddygol annibynnol gael eu cofrestru gydag AGIC os nad yw gwasanaethau meddygol yn cael eu darparu ond o dan drefniadau ar ran cleifion gan garchar neu sefydliad tebyg. Mae'n ofynnol i unrhyw ddeintydd sy'n darparu gwasanaethau preifat yng Nghymru gael ei gofrestru gydag AGIC. Yn achos carchar sy'n cael ei redeg yn breifat, byddai'n rhaid iddo sicrhau bod unrhyw ddeintydd sy'n darparu gwasanaethau i garcharorion wedi'i gofrestru gydag AGIC.

**Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi**

7. Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn arolygiaeth annibynnol y mae ei phrif arolygydd wedi'i benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae pwerau'r prif arolygydd yn deillio o Adran 5A Deddf Carchardai 1952 (fel y'i diwygiwyd).[1] Mae'r prif arolygydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r ysgrifenyddion gwladol perthnasol ac i San Steffan ar driniaeth ac amgylchiadau carcharorion yn Lloegr a Chymru, a mewnfudwyr mewn dalfeydd yn y Deyrnas Unedig. Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi hefyd yn arolygu dalfeydd llysoedd, dalfeydd yr heddlu a dalfeydd tollau gydag Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi – a chanolfannau hyfforddi diogel gydag Ofsted. Trwy wahoddiad, mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn arolygu rhai dalfeydd milwrol, yn ogystal â charchardai yng Ngogledd Iwerddon, ac mewn awdurdodaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r DU, megis Ynys Manaw. Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yw'r corff cydlynu ar gyfer Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU[2] – grŵp o tua 20 sefydliad sy'n monitro dalfeydd yn Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon o dan y Protocol Opsiynol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall.[3]

Gellir gweld manylion ynglŷn â fframwaith, dull o weithredu a methodoleg gyffredinol Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn:
http://www.justiceinspectorates.gov.uk/HMI Prisons/about-our-inspections/

**Protocol Opsiynol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn Erbyn Artaith (OPCAT)**

8. Mae'r arolygiadau a'r monitro a gynhelir gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac AGIC yn rhan o fecanwaith y DU ar gyfer cyflawni ei rhwymedigaethau fel cyfrannwr at y Protocol Opsiynol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (OPCAT). Mae'r Protocol Opsiynol i'r

[1] Mae Adran 5A Deddf Carchardai 1952 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982, Deddf Mewnfudo a Lloches 1999, Deddf Lloches, Mewnfudo a Chenedlaetholdeb 2006, a Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006).
[2] Gwnaeth y DU ddynodi ei mecanwaith ataliol cenedlaethol ym mis Mawrth 2009. Mae mecanwaith ataliol cenedlaethol y DU yn cael ei gydlynu gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi.
[3] Daeth y Protocol Opsiynol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall, A/RES/57/199, a fabwysiadwyd ar 18 Rhagfyr 2003, i rym ar 26 Mehefin 2006.

confensiwn hwn yn cydnabod bod pobl a gedwir yn eithriadol o agored i gamdriniaeth, ac y dylid canolbwyntio ymdrechion i atal camdriniaeth ar atal trwy system o ymweliadau arolygu annibynnol a rheolaidd â dalfeydd.

Pan wnaeth y DU gadarnhau'r Protocol Opsiynol yn 2003, derbyniodd gyfrifoldeb gwladol am:

> *'sefydlu, dynodi neu gynnal ar lefel fewnol un corff, neu nifer o gyrff ymweld, er mwyn atal artaith a thriniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol arall'*

Mae'r cyrff ymweld mewnol sy'n cyflawni'r rhwymedigaethau hyn yn ffurfio'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol. Rhaid i'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol fod yn annibynnol a derbyn digon o adnoddau er mwyn sicrhau'r galluoedd a'r arbenigedd angenrheidiol i ddarparu'r arolygiad effeithiol o ddalfeydd.[4] Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac AGIC wedi cael eu dynodi'n rhan o'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol, sy'n cael ei gydlynu gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, a bydd y ddau ohonynt yn cyflawni eu gwaith yn unol â'r gofynion ar gyfer mecanweithiau ataliol cenedlaethol a nodir yn y Protocol Opsiynol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall, a chan Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Artaith.

**Rhaid i'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol:**

- archwilio'n rheolaidd triniaeth pobl a amddifadwyd o'u rhyddid mewn dalfeydd;
- gwneud argymhellion i'r awdurdodau perthnasol â'r nod o wella triniaeth ac amgylchiadau carcharorion; a
- chyflwyno cynigion a sylwadau ynglŷn â deddfwriaeth ddrafft gyfredol.

**Rhaid bod gan y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol:**

- fynediad at wybodaeth ynglŷn â'r nifer o bobl a amddifadwyd o'u rhyddid, y nifer o ddalfeydd a'u lleoliad;
- mynediad at wybodaeth ynglŷn â thriniaeth ac amgylchiadau carcharorion;
- mynediad at bob dalfa; a'r
- cyfle i gyfweld â charcharorion ac unrhyw berson perthnasol arall yn breifat.

**NC/Ysgrifenyddiaeth**

Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn:

- sicrhau bod copïau o adroddiadau blynyddol a chyhoeddiadau yn cael eu hanfon at gyrff sy'n aelod;
- rhoi unrhyw wybodaeth berthnasol i'r cyrff sy'n aelod sy'n eu hysbysu am bryderon yn eu gwahanol sefydliadau;
- hyrwyddo cydweithio rhwng cyrff sy'n aelod;

[4] Gweler adroddiad blynyddol cyntaf yr Is-bwyllgor ar Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (Chwefror 2007 i Fawrth 2008), CAT/C/40/2 (14 Mai 2008).

- hyrwyddo cyd-hyfforddi rhwng cyrff sy'n aelod;
- darparu manylion cyswllt diweddaredig cyrff sy'n aelod;
- hyrwyddo ymwybyddiaeth o rôl hanfodol Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi i aelodau o'r bwrdd; a
- threfnu cyfarfod blynyddol ar gyfer cyrff sy'n aelod er mwyn adolygu trefniadau gweithio a materion allweddol.

## Atodiad B: Protocol ar gyfer Rhannu Gwybodaeth

**1.** Diben rhannu gwybodaeth yw galluogi AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi i gael syniad mor gyflawn â phosibl o berfformiad, ond ar yr un pryd yn osgoi dyblygu ceisiadau am wybodaeth gan gyrff sy'n cael eu harolygu. Lleolir y protocol hwn yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth, y dyletswyddau a'r codau ymarfer perthnasol. Nid oes unrhyw beth ynddo sy'n gallu disodli rhwymedigaethau'r naill sefydliad na'r llall lle mae gwybodaeth yn gyfrinachol, neu lle mae gwybodaeth wedi cael ei darparu ar yr amod na fydd yn cael ei rhannu ymhellach. Yn yr un modd, nid oes unrhyw beth yn y protocol hwn a ddylai atal y naill gorff na'r llall rhag rhoi gwybodaeth i bartïon eraill (megis rheoleiddwyr proffesiynol) lle mae hynny'n briodol er mwyn diogelu carcharorion, ymwelwyr, staff neu'r cyhoedd.

**2. Y Gyfraith Statudol a'r Gyfraith Gyffredin**

Mae AGIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn cydnabod bod y meysydd canlynol yn berthnasol i rannu gwybodaeth:

- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Dyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003

**3. Sut y bydd Gwybodaeth yn cael ei rhannu**

**3.1 Rhannu gwybodaeth yn systematig:**
Bydd AGIC yn rhannu gwybodaeth ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ynglŷn â chanfyddiadau sy'n gysylltiedig â'i harolygiadau a'i hymchwiliadau, a gwybodaeth ynglŷn â Byrddau Iechyd Lleol fel comisiynwyr gofal iechyd i garcharorion yng Nghymru. Gwneir hyn yn y ffyrdd canlynol:

**3.2 Arolygiadau Clinigol AGIC o Farwolaethau yn y Carchar:**
Ers mis Ebrill 2008, AGIC sydd wedi bod yn gyfrifol am yr elfen adolygu clinigol o ymchwiliadau i farwolaethau yn y carchar ar ran Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf.

Mae Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf yn rhannu ei adroddiadau ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi cyn arolygiad. Pan fydd hynny'n briodol, bydd AGIC yn rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol arall, a all fod yn berthnasol i swyddogaeth monitro ac arolygu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi.

**3.3 Rhannu gwybodaeth yn ad hoc:**
Bydd AGIC yn rhannu gwybodaeth ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a geir yn ei rhaglen o arolygiadau, ac unrhyw ymchwiliadau, gan sicrhau bod Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn cael ei hysbysu'n gynnar am argymhellion mewn perthynas â'r sefydliadau o dan sylw, unwaith maent wedi cael eu dilysu. Y mecanwaith ar gyfer gwneud hyn fydd yn defnyddio'r cysylltiadau a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

**3.4 Gwybodaeth Gorfforaethol AGIC**
Bydd AGIC yn sicrhau bod Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn derbyn ei gwybodaeth gorfforaethol pan fydd hynny'n briodol, gan gynnwys:

- cylchlythyr;
- adroddiad blynyddol AGIC;
- adroddiadau blynyddol Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau Iechyd; a
- chynllun gweithredol AGIC.

**3.5 Arolygiadau o ddalfeydd yr heddlu gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi/Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi:**
Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn cydweithredu ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi er mwyn arolygu dalfeydd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn hysbysu AGIC pan fydd yn bwriadu arolygu'r dalfeydd mewn unrhyw heddlu yng Nghymru, ac yn rhoi copi o'r adroddiad terfynol i AGIC.

**3.6 Arolygiadau o gelloedd mewn llysoedd gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi:**
Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn hysbysu AGIC pan fydd yn bwriadu arolygu celloedd llys yng Nghymru, ac yn rhoi copi o'r adroddiad terfynol i AGIC.

**3.7 Gwybodaeth gorfforaethol Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi:**
Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn rhannu ei chynllun busnes a gwybodaeth gorfforaethol ag AGIC pan fydd hynny'n briodol.

## Atodiad C: Manylion cyswllt

**Swyddogion AGIC**

Robin Bradfield
Pennaeth Arolygu, AGIC

Ffôn: 0300 062 8976
E-bost:Robin.Bradfield@Wales.GSI.Gov.uk

Sarah Jones
Pennaeth Gwybodaeth a Datblygiad Corfforaethol, AGIC (Rheolwr Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth)
Ffôn: 0300 062 8383
E-bost: sarah.jones3@wales.gsi.gov.uk

Alun Jones
Cyfarwyddwr Arolygu, Rheoleiddio ac Ymchwilio, AGIC

Ffôn: 300 062 8120

E-bost:Alun.jones30@wales.gsi.gov.uk

**Swyddogion Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi**

Paul Tarbuck
Pennaeth Arolygu Gofal Iechyd, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
(Rheolwr Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth)
Ffôn: 07788 404642
E-bost: paul.tarbuck@hmiprisons.gsi.gov.uk

Martin Lomas
Dirprwy Brif Arolygydd, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

Ffôn: 0203 681 2774

E-bost: Martin.Lomas@HMIPrisons.gsi.gov.uk

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
Adeiladau'r Llywodraeth
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tydfil, CF48 1UZ

**Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi**
Victory House, Llawr 6
30–34 Kingsway
LONDON, WC2 6EX